

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Wardiau Epynt a'r Bannau, Ysbyty
Coffa Rhyfel Aberhonddu, Bwrdd
Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 26 a 27 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 28 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-385-7

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 26 a 27 Medi 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Epynt - 15 o welyau - dan arweiniad meddyg teulu a meddyg ymgynghorol - mae'n darparu gwasanaethau adsefydlu arbenigol a hon yw'r ganolfan adsefydlu yn dilyn strôc ar gyfer de Powys
- Ward Y Bannau - 15 o welyau - dan arweiniad meddyg teulu - mae'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol a gofal lliniarol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr ar ward Epynt a chwblhawyd wyth ar ward Y Bannau. Cwblhawyd chwe holiadur gan staff a oedd yn gweithio ar ward Epynt a saith gan staff a oedd yn gweithio ar ward Y Bannau. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf (a dreuliodd amser yn siarad â chleifion ar y ddwy ward). Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda ar y ddwy ward. Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Fodd bynnag, gwelsom rai agweddau ar yr amgylchedd ar y ddwy ward yr oedd angen eu gwella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth am sut i fynegi pryder neu wneud cwyn a disodli'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r Cyngor Iechyd Cymuned gyda gwybodaeth sy'n ymwneud â Llais
- Adnewyddu'r cyfleusterau gofal lliniarol ar y ddwy ward er mwyn eu gwneud yn llai clinigol yr olwg ac yn fwy cyfforddus i gleifion a pherthnasau
- Datblygu'r ardd awyr agored i'w defnyddio gan gleifion ac ymwelwyr ar ward Y Bannau
- Atgyweirio'r gloch alw frys ar ward y Bannau a'r gloch alw yn yr ystafell ymolchi ar ward Epynt.
- Darparu cymhorthion ychwanegol i gefnogi unigolion gyda dementia e.e. clociau, calendrau ac ati
- Darparu cadeiriau adsefydlu yn dilyn strôc ychwanegol ar ward Epynt
- Archwilio'r defnydd o ardaloedd storio amgen ar y ddwy ward a gwefru'r cyfarpar meddygol ar ward Epynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Enghreifftiau da o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion
- Darparu bwyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar y ddwy ward yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan, ac roedd y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod angen

gwelliant mewn perthynas ag agweddau ar reoli heintiau, rheoli meddyginiaethau a chadw cofnodion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo. Roedd y wardiau yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio. Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaeth
- Rhai agweddau ar atal a rheoli heintiau
- Rhai agweddau ar gadw cofnodion
- Adolygu amseroedd cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau y gall meddygon teulu fynychu
- Sicrhau bod y broses trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn gadarn ac yn unol â'r llwybr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Rheoli risg
- Gwaith amlddisgyblaethol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda ar y ddwy ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau o ran goruchwylio staff a rhai elfennau o hyfforddiant staff.

Dywedodd aelodau'r staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ar y cyfan, a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhai agweddau ar hyfforddiant staff gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, sepsis a hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd
- Newid i roi system rheoli cofnodion electronig ar waith
- Sicrhau y caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal ar ward Y Bannau
- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd

- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau ar y fewnrwyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogaeth a goruchwyliaeth dda gan reolwyr y wardiau
- Prosesau archwilio ac adrodd da.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar holiadur gan gleifion neu eu gofawyr ar ward Epynt a chwblhawyd wyth ar ward Y Bannau.

Roedd sylwadau'r cleifion a oedd yn aros ar ward Epynt yn cynnwys y canlynol:

“Pob clod i'r staff.”

“Mae'r staff ar bob lefel yn eithriadol.”

“Mae'r staff wedi fy annog i fod mor annibynnol â phosibl.”

Roedd sylwadau'r cleifion a oedd yn aros ar ward Y Bannau yn cynnwys y canlynol:

“Bu pob unigolyn sy'n rhan o redeg yr ysbyty hwn, o'r staff glanhau i'r nyrsys yn garedig, yn barchus, yn barod eu cymorth ac mae angen rhoi'r parch hwnnw yn ôl iddynt. Maent yn gweithio o dan straen bron pob dydd oherwydd prinder staff. Parhewch i roi'r cyflog y maent yn ei haeddu iddynt.”

“Mae'r staff yn hyfryd.”

Ni allai'r gofal fod yn well.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Yn dda gan mwyaf, ond mae llawer o newidiadau ymhlith y staff.”

“Mae ceisio cael y gofal iechyd priodol i fynd adref yn anodd.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r wardiau, ac roedd llawer ohonynt yn ddwyieithog. Fodd bynnag, roedd llawer o reseli arddangos taflenni gwag ar y ddwy ward, a dylid symud y rhain os nad oes eu hangen mwyach.

Dylai'r bwrdd iechyd symud y rheseli arddangos taflenni gwag os nad oes eu hangen mwyach.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Gwelsom amrywiaeth o gyfarpar ar y ddwy ward i helpu'r cleifion i symud ac i'w hannog i fod yn annibynnol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd digon o gadeiriau strôc arbenigol ar ward Epynt i fodloni'r galw gan gleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gadeiriau strôc arbenigol ar ward Epynt.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm o staff ac roedd y cleifion a'u perthnasau yn llawn canmoliaeth tuag at y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y cleifion yn lân a bod eu dillad yn cael eu newid yn rheolaidd hefyd.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y ffordd roedd y staff yn cynnal eu preifatrwydd a gwelsom lenni yn cael eu cau o amgylch y cleifion wrth i ofal personol gael ei ddarparu.

Roedd ystafelloedd gofal lliniarol dynodedig ar y ddwy ward. Roedd y rhain yn darparu adnodd gwerthfawr i gleifion sy'n gofyn am ofal diwedd oes. Fodd bynnag, mae angen adnewyddu'r ddwy ystafell er mwyn eu gwneud yn llai clinigol yr olwg ac

yn fwy cyfforddus i gleifion a pherthnasau. Gwnaethom hefyd awgrymu bod yr ardd nesaf at ward Y Bannau yn fwy hygyrch i gleifion a'u hymwelwyr, yn enwedig y cleifion hynny sy'n derbyn gofal lliniarol.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adnewyddu'r cyfleusterau gofal lliniarol ar y ddwy ward er mwyn eu gwneud yn llai clinigol yr olwg ac yn fwy cyfforddus i gleifion a pherthnasau.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wneud yr ardd nesaf at ward Y Bannau yn fwy hygyrch i gleifion a'u perthnasau.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Roedd ansawdd yr asesu a chynllunio gofal yn dda ar y cyfan, a gwelsom fod y gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn trafodaeth â'r cleifion ar y cyfan ac mewn ffordd a oedd yn nodi ac yn diwallu eu hanghenion a'u dymuniadau unigol.

Roedd trafodaethau amlddisgyblaethol da yn cael eu cynnal yn ystod rownd bwrdd ynghylch anghenion y cleifion. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd meddygon teulu'n gallu mynychu rhai o'r cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob amser oherwydd ymrwymadau gwaith eraill.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu amseroedd y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod meddygon teulu'n gallu mynychu.

Gwelsom fod dymuniadau'r cleifion mewn perthynas â dadebru pe byddent yn llewygu yn cael eu trafod â nhw a chynrychiolwyr penodol o'r teulu a bod dogfennaeth Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol (DNACPR) yn cael ei chwblhau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod gan y ffurflenni DNACPR ac uwchgyfeirio triniaeth forderi coch a allai arwain at ddryswch, ac rydym yn argymhell fod y rhain yn cael eu hadolygu.

Dylai'r bwrdd iechyd edrych ar ffyrdd o wahaniaethu rhwng y ffurflenni DNACPR ac uwchgyfeirio triniaeth i osgoi dryswch.

Amserol

Gofal amserol

Roedd y cleifion ar y ddwy ward yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt. Gwelwyd bod y staff yn rhagweld anghenion y cleifion drwy ddulliau arsylwi cyffredinol. Roedd hyn yn eu galluogi i roi sylw i'r cleifion mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y gloch alw mewn argyfwng ar ward Y Bannau yn gweithio. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r adran cynnal

a chadw a rhoddwyd system dros dro, amgen o rybuddio staff am argyfwng ar waith. Gwelsom hefyd nad oedd cloch alw yn un o'r ystafelloedd ymolchi ar ward Epynt yn gweithio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio'r gloch alw mewn argyfwng ar ward Y Bannau a'r gloch alw yn un o'r ystafelloedd ymolchi ar ward Epynt yn ddi-oed.

Roedd prosesau cynllunio trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty amlddisgyblaethol da ar waith gyda chymorth yn cael ei roi gan y cydlynnydd rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Roedd proses gadarn ar waith i fynd ar drywydd cleifion ar y wardiau a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth gefnogol bob amser yn adlewyrchu'r broses a'r penderfyniadau a wnaed. Yn ogystal, roedd rhai o'r cleifion yn aros ar y ward am gyfnod hwy nag roedd angen oherwydd oedi o ran asesiadau'r gweithwyr cymdeithasol neu argaeledd pecynnau gofal cymunedol addas.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ddogfennaeth cynllunio trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n adlewyrchu'r broses a gynhelir a'r penderfyniadau a wneir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff ar y ddwy ward yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau roeddent yn eu ffafrio Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu hannog ac yn eu cynnwys.

Dywedodd y cleifion wrthym mai Saesneg oedd y staff ar y wardiau'n ei siarad gan mwyaf gyda rhai'n gallu defnyddio rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg.

Dywedwyd wrthym hefyd fod hyfforddiant Cymraeg ar gael, ond bod nifer yr aelodau staff oedd yn cymryd rhan yn isel. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael ac roedd modd galw ar staff a oedd yn siarad Cymraeg o ardaloedd eraill o'r ysbyty os oedd angen. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriadur o aelodau staff a oedd yn siarad Cymraeg ar gael i helpu'r broses hon.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau gyda'i ymdrechion i annog staff i ddysgu Cymraeg ac ystyried llunio cyfeiriadur o siaradwyr Cymraeg y gellid galw arnynt am gymorth os oedd angen.

Nid oedd cyfarpar dolen sain ar gael ar y naill ward na'r llall, ac rydym yn awgrymu sicrhau bod y cyfarpar hwnnw ar gael er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion ac ymwelwyr a all fod yn drwm eu clyw.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cyfarpar dolen sain ar y ddwy ward.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom y staff ar y ddwy ward yn rhyngweithio'n garedig a pharchus â'r cleifion a chadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu.

Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i'r cleifion a'u teuluoedd allu cwrdd yn breifat ac roeddent yn barod i hwyluso hyn drwy ddefnyddio ystafelloedd gwely nad oeddent yn cael eu defnyddio ar y pryd.

Gwelsom fod gwybodaeth a defnydd y staff am y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Galluedd meddyliol yn amrywiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael rhagor o hyfforddiant yn ymwneud â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a Galluedd Meddyliol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r cleifion a oedd yn destun trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ac roedd hyn i'w weld yn y ddogfennaeth a welsom. Fodd bynnag, gwelsom un enghraifft ar ward Epynt lle roedd awdurdodiad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi dod i ben.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r broses trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a monitro'r amserlenni er mwyn sicrhau y caiff asesiadau newydd eu cynnal mewn ffordd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol ar y ddwy ward, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg ar gyfer cwmpadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau risg o gwmpo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ da ar waith ar y ddwy ward ar y cyfan. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus ar y cyfan.

Fodd bynnag, gwelsom fod cyfarpar meddygol a rhai cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol yn cael eu storio ar y coridorau ar y ddwy ward, gan gynyddu'r risg o groes-heintio. Yn ogystal, roedd ambell ddarn o gyfarpar yn cael ei wefru ar y coridor ar ward Epynt. Gwelsom hefyd fod peiriannau sugno cludadwy yn cael eu storio ar y llawr ar goridor yn ward Epynt. Mae hyn yn cynyddu'r risg o faglu a chwmpo, ond hefyd yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar ei storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o gwmpo a chroes-heintio.

Gwelsom fod y lloriau yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar ward Epynt wedi dod yn rhydd o'r waliau. Roedd hyn yn edrych yn annymunol ond hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cadw'n lân ac yn cynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i drwsio'r llawr ar ward Epynt.

Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Fodd bynnag, gwelsom fod ffedogau plastig yn cael eu

gadael ar ganllawiau yn y coridor ar ward Y Bannau. O ganlyniad, roedd rhai o'r ffedogau wedi cwmpo i'r llawr ac felly'n cynyddu'r risg o groes-heintio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob eitem o gyfarpar diogelu personol yn cael ei storio yn briodol.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch y ward.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd staff ward Y Bannau yn glanhau'r cyfarpar monitro pwysedd gwaed rhwng cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn glanhau'r cyfarpar monitro pwysedd gwaed rhwng cleifion.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Rydym yn awgrymu y dylid arddangos canlyniadau archwiliadau o'r fath i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Dylai'r bwrdd iechyd ddangos canlyniad yr archwiliadau ar y wardiau er mwyn i'r cleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.

Diogelu plant ac oedolion

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y wardiau. Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith. Roedd rheolwyr y ward yn wybodus am wneud defnydd ymarferol o'r polisiâu a'r gweithdrefnau hyn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn y wardiau ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwaed

Roedd polisi trallwysio gwaed ar waith. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adolygu hwn yn 2020.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r polisi trallwysio gwaed.

Dywedwyd wrthym nad yw'r broses trallwysiad gwaed yn cael ei chynnal yn rheolaidd iawn ar y naill ward na'r llall. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y staff sy'n ymwneud â thrallwysio gwaed a rheoli cynhyrchion gwaed yn cael hyfforddiant ac yn ymgymryd ag asesiadau cymhwysedd rheolaidd. Roedd gan y staff y siaradwyd â nhw ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau i'w dilyn.

Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw faterion y daethpwyd ar eu traws yn ystod y broses drallwyso'n cael eu cofnodi ar Datix. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol o'r broses rhoi gwybod am Beryglon Difrifol Trallwyso Gwaed.

Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod yr holl staff sydd ynghlwm â thrallwyso gwaed a chynhyrchion cysylltiedig â gwaed yn ymwybodol o'r broses o roi gwybod am Beryglon Difrifol Trallwyso Gwaed.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael ar y ddwy ward, a dengys y cofnodion bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith ac roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y ddwy ward ar y cyfan.

Dywedwyd wrthym eu bod yn cael cymorth da gan y fferylllydd a thechnegydd y fferyllfa a oedd yn mynychu'r wardiau dair gwaith yr wythnos.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ar y ddwy ward ac edrychwyd ar samplau o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nid oedd pwysau'r cleifion yn cael ei gofnodi'n rheolaidd ar y siartiau rhoi meddyginiaeth ac roedd diffyg cysondeb yn y ffordd yr oedd staff yn cofnodi'r broses o roi meddyginiaeth gyda gwerthusiad y cleifion o nodiadau gofal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi pwysau'r cleifion ar y siartiau rhoi meddyginiaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi yn gyson gyda'r broses o werthuso nodiadau gofal y cleifion.

Roedd y ddwy ward yn rhannu oergell storio meddyginiaeth ar ward Y Bannau yn sgil materion gyda thymheredd yr ystafell ar ward Epynt. Gwnaethom nodi bod yr oergell wedi'i gadael heb ei chloi, pan nad oedd staff yn bresennol, ar nifer o achlysuron yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd yr ystafell yr oedd yr oergell wedi'i lleoli ynddi wedi'i chloi bob amser.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergell storio meddyginiaeth wedi'i chloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal, gyda'r nyrsys yn gofyn i'r cleifion os oeddent angen unrhyw feddyginiaethau lleddfu poen wrth roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi anghysondebau yn y ddogfennaeth sgorio poen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sgoriau poen yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn gywir.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol ar y ddwy ward.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol ar y cyfan.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau ar waith ar y ddwy ward ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Gwelsom fod yr asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu ac iechyd y croen yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a bod atgyfeiriadau at y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe yn cael eu gwneud fel y bo'n ofynnol. Fodd bynnag, gwelsom ar ward Epynt, nad oedd cofnodion o atgyfeiriadau i'r nyrsys hyfywedd meinwe a gweithwyr proffesiynol eraill yn fanwl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill eu cofnodi'n gywir yn nodiadau gofal y cleifion.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal, gyda thystiolaeth o sgrinio ac asesu llawn wrth dderbyn ac adolygiadau rheolaidd yn wythnosol. Fodd bynnag, gwelsom ddwy enghraifft ar ward Y Bannau lle roedd sgoriau rhybudd cynnar cenedlaethol wedi'u cyfrifo yn anghywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol eu cyflawni'n gyson ac y caiff sgoriau eu cofnodi'n gywir.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r llwybr Sepsis a'r bwndel gofal ac roeddent yn gallu disgrifio sut y byddent yn rheoli claf lle amheuir neu y cadarnheir fod Sepsis arno.

Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth fod staff wedi ymgymryd â hyfforddiant Sepsis ac nid oedd ganddynt fynediad i ganllawiau yn ymwneud â'r llwybr Sepsis.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ar reoli cleifion gyda Sepsis a'u bod yn cael mynediad i ganllawiau yn ymwneud â'r llwybr sepsis.

Maeth a hydradu

Roedd y bwyd a'r ddiod a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd asesiadau newydd yn cael eu cynnal mewn modd amserol bob amser.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau maeth a hydradu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelsom fod system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda ar y ddwy ward.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini ar y ddwy ward a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb ruthro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flacus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Cofnodion cleifion

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion a welsom yn amrywiol ar y ddwy ward. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau o ddogfennaeth yn cael eu cynnal yn flynyddol fel rhan o'r archwiliad hanfodion gofal / safonau iechyd a gofal. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o archwiliadau o gofnodion, ond roedd eu cwmpas yn gyfyngedig e.e., Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Dylai'r bwrdd iechyd roi proses ar waith i archwilio cofnodion gofal yn rheolaidd i sicrhau cysondeb, cywirdeb ac eglurder.

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynnal ar ffurfiau electronig a phapur, a bod rhywfaint o ddiffyg cysylltiad rhwng nodiadau meddygol, nodiadau nyrsio, dogfennau a gedwir ar waelod gwelyau'r cleifion a'r cofnodion hynny a gynhelir yn electronig. Gwnaeth hyn y gwaith o ganfod gwybodaeth berthnasol yn anodd. Roedd diffyg cronoleg mewn rhai nodiadau meddygol ac, mewn rhai achosion, nid

oedd modd eu darllen. Nid oedd rhai nodiadau meddygol wedi'u llofnodi na'u dyddio.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu sut y caiff cofnodion eu cynnal, ac os yn bosibl, eu symud i system gwbl electronig.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom aelodau o'r staff yn ceisio darparu gofal effeithlon i'r cleifion.

Roedd cymysgedd o gleifion yn cael gofal ar y ward a oedd yn cynnwys cleifion ag anghenion gofal iechyd meddwl oherwydd dementia, cleifion ag anghenion gofal corfforol uchel a chleifion yr aseswyd eu bod yn addas i gael eu rhyddhau ac a oedd yn aros am leoliad cartref gofal addas neu becyn gofal cymunedol. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion amrywiol y cleifion ac yn ymatebol iddynt.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd staff ar y ddwy ward yn hapus â'r amgylchedd gwaith a'r cymorth a roddwyd iddynt ar y cyfan.

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Roedd y system galw nyrsys wedi torri i lawr dros yr wythnosau diwethaf ar ward Y Bannau. Mae ateb dros dro ar waith, ond nid oes gan y ward gloch alw mewn argyfwng bellach. Mae hyn o bosibl yn gosod cleifion a staff mewn perygl mewn achos o argyfwng.”

“Nid oes Capel gorffwys ar hyn o bryd. Gall hyn beri cryn drallod os bydd teulu'n dewis gweld eu hanwyliaid. Dywedwyd wrthyf fod yr uwch-reolwyr yn mynd i'r afael â'r broblem ond nid yw'r camau gweithredu a gynlluniwyd wedi'u cyfathrebu. Efallai bod angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried cytundeb lefel gwasanaeth gyda threfnwr angladdau lleol gan alluogi ar gyfer casglu'r cleifion ymadawedig a'u cludo'n syth i'r Trefnwr Angladdau.”

“Mae angen rhagor o hyfforddiant ar Trac a'r Cofnodion Staff Electronig. Mae angen rhaglen sefydlu band 7 ffurfiol.”

“Rhestr atgoffa neu hyfforddiant yn ymwneud â gwasanaethau allanol i gynllunio trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi ystyriaeth i'r sylwadau uchod gan y staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi'r trefniadau llywodraethu a rheoli ar y ddwy ward.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith ar y ddwy ward. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau cwblhau sesiynau arfarnu staff yn gwella ar y ddwy ward, roeddent yn amrywio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad o leiaf unwaith bob deuddeg mis.

Roedd cyfathrebu, rhannu gwybodaeth a chymorth da rhwng rheolwyr y ddwy ward.

Roedd tystiolaeth hefyd o gyfathrebu da o ddydd i ddydd rhwng rheolwyr a staff y wardiau. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar ward Epynt ond maent wedi darford rhywsut ar ward Y Bannau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar ward Y Bannau a bod cofnodion yn cael eu rhannu â'r aelodau staff hynny sy'n methu mynychu.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff ar y ddwy ward a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Roedd disgwyl i'r staff ar y ddwy ward gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol ar y ddwy ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob y staff yn cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ar y ddwy ward ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ar y cyfan.

Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a oedd yn dod i law am y gwasanaeth yn isel iawn.

Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar y wardiau i roi gwybod i'r cleifion a'r ymwelwyr sut i wneud cwyn ac roedd un poster yn cynnwys cyfeiriad at y Cyngor Iechyd Cymuned sydd bellach wedi'i ddiddymu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos gwybodaeth ar y wardiau am sut i wneud cwyn a sicrhau bod y cyfeiriad at y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael ei newid gyda manylion Llais, sef y corff cenedlaethol, annibynnol newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais i bobl Cymru o ran sut maent yn cael eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwelsom nad oedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan reoliadau'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi ymgymryd â gweithgareddau e-ddysgu ond dywedodd eraill wrthym nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ar y mater.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Roedd polisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd yn cael eu cadw ar y fewnwyd. Fodd bynnag, nid oedd yr holl aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau ar y fewnwyd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y ddwy ward er mwyn monitro a gwella ansawdd y gofal a ddarperir.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod y ward yn cael ei chefnogi'n dda gan weithwyr proffesiynol eraill fel meddygon teulu, fferyllwyr, ffisiotherapyddion a deietegwyr lleol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw faterion uniongyrchol eu nodi na'u huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wardiau Epynt a'r Bannau, Ysbyty Aberhonddu

Dyddiad yr arolygiad: 26 a 27 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wardiau Epynt a'r Bannau, Ysbyty Aberhonddu

Dyddiad yr arolygiad: 26 a 27 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Gwelsom fod nifer o reseli arddangos taflenni yn y ddwy ward.	Dylai'r bwrdd iechyd symud y rheseli arddangos taflenni gwag os nad oes eu hangen mwyach.	<ul style="list-style-type: none">Dylai Rheolwyr y Wardiau nodi pa reseli sy'n ofynnol a naill ai tynnu'r rhai sydd dros ben neu eu defnyddio nhw.	Rheolwyr y Wardiau	Cwblhawyd Tachwedd 2023
Gwelsom fod angen adnewyddu'r ddwy ystafell gofal lliniarol er mwyn eu gwneud yn llai clinigol yr olwg ac yn fwy cyfforddus i gleifion a pherthnasau.	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adnewyddu'r cyfleusterau gofal lliniarol ar y ddwy ward er mwyn eu gwneud yn llai clinigol yr olwg ac yn fwy cyfforddus i gleifion a pherthnasau.	<ul style="list-style-type: none">Gofyn i'r tîm cynnal a chadw ystadau i ailaddurno er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal a gwneud iddi deimlo'n gynhesach ac yn llai clinigol.Bydd angen rhagor o gyfarpar fel oergell, microdon, lluniau ac ati. Dylid ystyried arian elusennol neu gyllid Cynghrair y Cyfeillion. Bydd Prif Nyrs y ward yn creu rhestr gyda chostau.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol	Rhagfyr 2023

<p>Nid oedd yr ardd gerllaw Y Bannau yn hygyrch i gleifion a'u hymwelwyr ac yn benodol, y cleifion hynny a oedd yn cael gofal lliniarol.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wneud yr ardd nesaf at ward Y Bannau yn fwy hygyrch i gleifion a'u perthnasau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae rheolwr y ward a rheolwr y gwasanaethau cymunedol yn adolygu cynllun i wella'r ardal hon. • Mae aelod o staff wedi'i benodi i oruchwyllo prosesau a cheisiadau am gyllid. 	<p>Bydd rheolwr y ward a rheolwr y gwasanaethau cymunedol yn uwchgyfeirio trwy gyfarfod gweithredol y grŵp gwasanaethau cymunedol (GGC).</p>	<p>Adolygiad bob 3 mis ac yn fisol ar ôl hynny.</p> <p>Disgwylir y diweddariad cychwynnol ym mis Chwefror 2024.</p>
<p>Dywedwyd wrthym nad oedd meddygon teulu yn gallu mynychu rhai o'r cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob amser oherwydd ymrwymadau gwaith eraill.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu amseroedd y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod meddygon teulu'n gallu mynychu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaed cais i bractisau meddygon teulu adolygu presenoldeb. • Caiff adborth a mewnbwn meddygon teulu i ofal ei gynnwys ym mhob tîm amlddisgyblaethol. 	<p>Bydd y rheolwr gwasanaethau cymunedol yn rhoi gwybod drwy eithriad trwy gyfarfod ansawdd a diogelwch y GGC.</p>	<p>Adrodd yn fisol o fis Rhagfyr 2023.</p>
<p>Nodwyd gennym y gallai'r ffurflenni DNACPR ac uwchgyfeirio triniaeth sydd â borderi coch arwain at ddryswch, ac rydym yn argymhell adolygu'r rhain.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd edrych ar ffyrdd o wahaniaethu rhwng y ffurflenni DNACPR ac uwchgyfeirio triniaeth i osgoi dryswch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff y rhain eu hadolygu ledled Cymru. • Caiff staff eu hatgoffa o ba ffurflen sy'n cael ei hadolygu. 	<p>Uwchgyfeirio trwy roi gwybod am eithriadau trwy'r rheolwr gwasanaethau cymunedol trwy gyfarfod Ansawdd a Diogelwch GGC.</p>	<p>Adrodd yn fisol o fis Rhagfyr 2023</p>

		<ul style="list-style-type: none"> • Bydd digwyddiadau anffafriol yn cael eu hadrodd trwy Datix. 		
Nid oedd y gloch alw mewn argyfwng ar ward Y Bannau a'r gloch alw yn un o'r ystafelloedd ymolchi ar ward Epynt yn gweithio.	Rhaid i'r bwrdd iechyd atgyweirio'r gloch alw mewn argyfwng ar ward Y Bannau a'r gloch alw yn un o'r ystafelloedd ymolchi ar ward Epynt yn ddi-oed.	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio ar adeg darganfod y nam. • Defnyddiwyd system dros dro i liniaru'r risgiau. • Mae'r rhain wedi'u hatgyweirio ac yn gweithio ar hyn o bryd. • Bydd materion parhaus yn cael eu huwchgyfeirio a'u gosod ar y gofrestr risg. • Rhaid i waith monitro ac uwchgyfeirio parhaus fod ar waith. 	Rheolwyr y Wardiau/Rheolwyr Gwasanaethau Cymunedol Bydd eithriadau'n cael eu hadrodd drwy adroddiadau grŵp gweithredol ac Ansawdd a Diogelwch trwy'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol.	Cwblhawyd Hydref 2023
Nid oedd dogfennaeth yn ymwneud â rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn adlewyrchu'r broses a'r penderfyniadau a wneir bob amser. Yn ogystal, roedd rhai o'r cleifion yn aros ar y ward am gyfnod hwy nag	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ddogfennaeth cynllunio trefniadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n adlewyrchu'r broses a gynhelir a'r penderfyniadau a wneir.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfod grŵp rheoli penderfyniadau ddwywaith yr wythnos lle caiff yr ALL ei gynrychioli gan uwch-aelodau o'r tîm a chaiff pryderon eu huwchgyfeirio a'u cyfathrebu. 	Uwchgyfeirio trwy gyfarfodydd llif ward wythnosol ar gyfer y grŵp rheoli penderfyniadau. Cyfarwyddwr Cynorthwyol y	Cwblhawyd Tachwedd 2023

<p>oedd angen oherwydd oedi yn asesiadau'r gweithwyr cymdeithasol neu argaeledd pecynnau gofal cymunedol addas.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y bwrdd iechyd yn cysylltu â thimau nyrsio'r ward i sicrhau bod y ddogfennaeth rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn dangos llwybr y claf a'r prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty. 	<p>GGC a Phennaeth Nyrsio'r GGC</p>	
<p>Roedd hyfforddiant Cymraeg ar gael i'r staff, ond roedd nifer yr aelodau staff a oedd yn cymryd rhan yn isel ac nid oedd cyfeiriadur o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i helpu i gyfathrebu â chleifion a oedd yn dewis siarad Cymraeg.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i annog staff i ddysgu Cymraeg ac ystyried llunio cyfeiriadur o siaradwyr Cymraeg y gellid galw arnynt am gymorth os oedd angen.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff pwysigrwydd y Gymraeg ei gynnal trwy bob cyfarfod. • Caiff staff eu hannog i wneud y cynnig rhagweithiol. • Mae aelodau o staff yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cymraeg. • Mae'r rhestrau gweithio a gwisgoedd yn adlewyrchu staff sy'n siarad Cymraeg, ac rydym yn ceisio sicrhau bod gennym un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg lle y bo'n bosibl. 	<p>Rhoi gwybod trwy'r cyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC a Grŵp Llywio Profiad y Claf</p> <p>Caiff ei archwilio'n flynyddol drwy'r hanfodion gofal.</p> <p>Rheolwr y Ward/Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Adolygiad bob tair blynedd.</p> <p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

<p>Nid oedd cyfarpar dolen sain ar y naill ward neu'r llall i helpu i gyfathrebu â chleifion ac ymwelwyr a all fod yn drwm eu clyw.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu cyfarpar dolen sain ar y ddwy ward.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae dolenni sain ar gael ar bob ward - gwnaed y staff yn ymwybodol o'r lleoliad a sut i'w defnyddio. 	<p>Rheolwr y ward</p>	<p>Cwblhawyd Medi 2023</p>
<p>Gwelsom fod gwybodaeth a defnydd y staff am y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r Ddeddf Galluedd meddyliol yn amrywiol.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael rhagor o hyfforddiant yn ymwneud â'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a Galluedd Meddyliol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Caiff y staff eu hannog i gwblhau a diweddarau hyfforddiant trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Mae'r tîm diogelu wedi cynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i dîm y ward er mwyn gwella'r dull o gymhwyso'r wybodaeth hon. Bydd y wardiau'n cydymffurfio â 85% o hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2024. 	<p>Bydd rheolwr y ward yn diweddarau'r rheolwr gwasanaethau cymunedol mewn cyfarfodydd 1:1 misol mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant.</p> <p>Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol yn darparu diweddariad mewn cyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC bob deufis.</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p> <p>Targed cydymffurfio â hyfforddiant Mawrth 2024</p>

<p>Gwelsom enghraifft ar ward Epynt lle roedd awdurdodiad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid wedi darfod.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r broses trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a monitro'r amserlenni er mwyn sicrhau y caiff asesiadau newydd eu cynnal mewn ffordd amserol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae goruchwyllo dyddiadau dirwyn i ben y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn ofynnol. • Ychwanegwyd cwestiwn at yr archwiliad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid misol ar gyfer y wardiau cleifion mewnol. • Rhoddwyd cynlluniau gofal ar waith i bob claf o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a fydd yn darparu manylion ar gyfer monitro'r broses yn well, gan gynnwys y dyddiad cymhwysu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, dyddiad cymeradwyo'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'r dyddiad dirwyn i ben. Mae dyddiad ymweliad yr RP wedi'i gynnwys hefyd. • Bydd y cynllun gofal yn cael ei adolygu'n wythnosol, ochr 	<p>Rheolwr y Ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Medi 2023</p>
---	--	--	--	--------------------------------

		<p>yn ochr â phob agwedd arall ar ofal cynlluniedig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd Prif Nyrs y ward yn ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y ward ym mis Tachwedd. 		
<p>Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg o gwympiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiadau risg o gwmpo yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau y caiff adolygiad ei gynnal o Gofnod Clinigol Nyrsio Cymru (WNCR) bob pythefnos . • Atgoffa'r tîm nyrsio o bwysigrwydd adolygiadau, a hynny'n wythnosol, yn unol â'r polisi neu os oes newid yng nghyflwr y claf. • Cofnodwyd yng nghofnodion cyfarfodydd y ward a'u dosbarthu i bob arweinydd ward yn y cyfarfodydd tîm perthnasol. 	<p>Rheolwr y Ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Pennaeth Nyrsio Uwchgyfeirio trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC trwy roi gwybod am eithriadau.</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>
<p>Roedd cyfarpar meddygol a rhai cyflenwadau o gyfarpar diogelu personol yn cael eu storio mewn coridorau ar y ddwy ward gan gynyddu'r risg</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfarpar ei storio'n briodol er mwyn lleihau'r risg o gwmpo a chroes-heintio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd hyn ei ddatrys ar unwaith, ar ôl i'r eitemau gael eu darparu. 	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

<p>o groes-heintio. Yn ogystal, roedd ambell ddarn o gyfarpar yn cael ei wefru ar y coridor ar ward Epynt.</p> <p>Roedd peiriannau sugno cludadwy yn cael eu storio ar y llawr yn y coridor ar Ward Epynt. Mae hyn yn cynyddu'r risg o faglu a chwmpo, ond hefyd yn cynyddu'r risg o groes-heintio.</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r sefydliad wrthi'n adolygu'r lle storio canolog ar gyfer pob ardal. • Cafodd y pryder am y peiriant sugno cludadwy ei ddatrys ar ddiwrnod yr ymweliad. • Bydd rheolwr y gwasanaethau cymunedol yn cynnal hapwiriadau mewn ymweliadau dilynol. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	
<p>Roedd y lloriau yn y rhan fwyaf o ardaloedd ar ward Epynt wedi dod yn rhydd o'r waliau. Roedd hyn yn edrych yn annymunol ond hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cadw'n lân ac yn cynyddu'r risg o groes-heintio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i drwsio'r llawr ar ward Epynt.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd hyn dod yn rhan o'r gwaith gwella a gaiff ei reoli a'i gydlynu gan un unigolyn yn y grŵp gwasanaethau cymunedol. • Uwchgyfeirio trwy weithgorau gweithredol ac ystadau. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Pennaeth Nyrσιο Cyfarwyddwr Cynorthwyol.</p>	<p>Mawrth 2024</p>
<p>Roedd ffedogau plastig yn cael eu gadael ar ganllawiau yn y coridor ar ward Y Bannau ac roedd rhai o'r ffedogau wedi cwmpo ar y llawr ac</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob eitem o gyfarpar diogelu personol yn cael ei storio yn briodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd blychau dosbarthu newydd yn cael eu prynu. 	<p>Rheolwr y Ward Uwchgyfeirio trwy reolwr y gwasanaethau cymunedol os na ellir ei gywiro.</p>	<p>Ionawr 2024</p>

felly'n cynyddu'r risg o groesheintio.				
Nid oedd staff ward Y Bannau yn glanhau'r cyfarpar monitro pwysedd gwaed rhwng cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn glanhau'r cyfarpar monitro pwysedd gwaed rhwng cleifion.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r staff i gyd wedi'u hatgoffa o'u cyfrifoldeb i lanhau cyfarpar drwy ein cyfarfodydd lefel tîm a ward. Diweddarwyd yr amserlen lanhau a chaiff Archwiliadau mynych eu cynnal gan atal a rheoli heintiau. 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Hydref 2023
Nid oedd canlyniadau archwiliadau yn cael eu harddangos yn y wardiau i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff eu gweld.	Dylai'r bwrdd iechyd arddangos canlyniad archwiliadau ar y wardiau i gleifion, ymwelwyr a staff eu gweld.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r byrddau arddangos archwiliadau bellach ar waith. Bydd archwiliadau misol yn cael eu cyhoeddi. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol a'r Pennaeth Nyrsio yn cynnal hapwiriadau yn ystod ymweliadau. 	Rheolwr y Ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Pennaeth Nyrsio	Cwblhawyd Tachwedd 2023
Roedd disgwyl i'r polisi trallwysu gwaed sydd ar waith gael ei adolygu yn 2020.	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau'r polisi trallwysu gwaed.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r polisiâu trallwysu gwaed wedi'u diweddarau a'u cyhoeddi. 	Rheolwr y ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol	Cwblhawyd y diweddariad i'r polisi ym mis Tachwedd 2023

		<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ar gyfer trallwyo gwaed. • Dylai'r ward gyflawni cydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Ebrill 2024 	Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC.	Cydymffurfiaeth â hyfforddiant Ebrill 2024
Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r broses rhoi gwybod am Beryglon Difrifol Trallwyo Gwaed.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff sydd ynghlwm â thrallwyo gwaed a chynhyrchion cysylltiedig â gwaed yn ymwybodol o'r broses o roi gwybod am Beryglon Difrifol Trallwyo Gwaed.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ar gyfer trallwyo gwaed. • Dylai'r ward gyflawni cydymffurfiaeth o 85% erbyn mis Ebrill 2024 	Rheolwr y ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd a Grŵp Iechyd a Diogelwch GGC.	Ebrill 2024
Ni chafodd pwysau cleifion ei gofnodi ar y siartiau rhoi meddyginiaeth yn rheolaidd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cofnodi pwysau'r cleifion ar y siartiau rhoi meddyginiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff cleifion eu pwysu wrth eu derbyn ac yn rheolaidd. • Caiff staff eu hatgoffa i ddogfennu ar siartiau meddyginiaeth i sicrhau bod modd rhagnodi meddyginiaethau y mae 	Rheolwr y ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac	Cwblhawyd Tachwedd 2023

		<p>angen i'w pwysau gael eu cyfrifo, yn ddiogel.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ychwanegwyd at gyfarfod y ward a'i rannu â phob aelod o'r staff. • Bydd hapwiriadau'n cael eu cynnal gan ymweliadau'r uwch dîm rheoli. • Bydd hepgoriadau'n cael eu hychwanegu at Datix yn sgil cael gwybod trwy'r tîm rheoli meddyginiaethau. • Bydd dadansoddiadau misol o wallau meddyginiaeth yn cael eu cynnal 	<p>Ansawdd a Grŵp Iechyd a Diogelwch GGC.</p>	
<p>Roedd diffyg cysondeb yn y ffordd yr oedd staff yn cofnodi rhoi meddyginiaeth gyda gwerthusiad cleifion o nodiadau gofal.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi yn gyson gyda'r broses o werthuso nodiadau gofal y cleifion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr adolygiad o werthuso cofnodion gofal yn cael ei gynnal gan reolwr y ward ar Gofnod Gofal Nyrsio Cymru. • Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r dull arfer gorau mewn perthynas â 	<p>Rheolwr y ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd a Grŵp</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

		rhoi gofal ar waith i ddogfennu gofal.	Iechyd a Diogelwch GGC.	
Roedd yr oergell feddyginiaeth wedi'i gadael heb ei chloi, pan nad oedd staff yn bresennol, ar sawl achlysur yn ystod yr arolygiad.	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergell storio meddyginiaeth wedi'i chloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd y staff eu hatgoffa ar unwaith yn ystod yr ymweliad, ac mae hyn wedi'i ailadrodd yn ystod cyfarfod staff. • Bydd hapwiriadau'n cael eu cynnal yn ystod ymweliadau'r uwch dîm rheoli. 	Uwchgyfeirio trwy roi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC a Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol 1:1 gyda'r Pennaeth Nyrso	Cwblhawyd Medi 2023
Gwelsom anghysondebau yn y ddogfennaeth sgorio poen.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y sgoriau poen yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn gywir.	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff sgoriau poen eu cyflawni ar Gofnod Gofal Nyrso Cymru. • Caiff camau gweithredu perthnasol eu dogfennu yn y diweddariad darparu gofal er mwyn cynnwys effeithlonrwydd analgesia. • Bydd y Pennaeth Nyrso yn cynnal hapwiriadau o sgoriau poen ar Gofnod Gofal Nyrso Cymru yn fisol ac yn cael eu defnyddio fel 	Rheolwr y Ward Pennaeth Nyrso Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC	Cwblhawyd Tachwedd 2023

		mecanwaith ar gyfer dysgu ar y cyd.		
Gwelsom nad oedd dogfennaeth yn ymwneud ag atgyfeiriadau i'r nyrsys hyfywedd meinwe a gweithwyr proffesiynol eraill yn fanwl.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eraill eu cofnodi'n gywir yn nodiadau gofal y cleifion.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd adolygiad o brosesau atgyfeirio'n cael ei gynnal a bydd cynllun symud ymlaen yn cael ei ddsbarthu i sicrhau y caiff atgyfeiriadau manwl eu dogfennu'n gywir. 	Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol yn cynnal adolygiad o systemau atgyfeirio ar yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Nyrsio erbyn mis Mawrth 2024.	Cwblhawyd Hydref 2023
Gwelsom ddwy enghraifft ar ward Y Bannau lle roedd y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'u cyfrifo'n anghywir.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol eu cyflawni'n gyson ac y caiff sgoriau eu cofnodi'n gywir.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ac mae cyfleoedd am addysg ychwanegol wedi'u dynodi. • Bydd y tîm addysg glinigol yn meithrin rhaglen addysg. • Darparwyd addysg i dimau ar lefel ward mewn sesiwn wedi'i theilwra ym mis Tachwedd 2023. • Bydd cyfleoedd i roi adborth a chyfleoedd addysg yn cael eu cymryd yn ystod 	Rheolwr y Ward Pennaeth Nyrsio Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC	Cwblhawyd Tachwedd 2023

		ymweliadau clinigol gan Reolwr y Gwasanaethau Clinigol a'r Pennaeth Nyrsio.		
Nid oedd tystiolaeth fod staff wedi cwblhau hyfforddiant Sepsis ac nid oedd modd iddynt gael gafael ar ganllawiau yn ymwneud â'r llwybr Sepsis.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant ar reoli cleifion gyda Sepsis a'u bod yn cael mynediad i ganllawiau yn ymwneud â'r llwybr sepsis.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r hyfforddiant cyfredol ar Gofnodion Staff Electronig wedi darfod ac mae angen ei ddiweddarau. • Dod o hyd i ddarparwr hyfforddiant. • Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol sy'n cwblhau Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant erbyn 9 Tachwedd yn cadarnhau amserlen i'w rhoi ar waith. • Mae Polisi Sepsis ar gael i'r holl staff trwy Sharepoint. 	Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol Pennaeth Nyrsio Yr Adran Addysg	Argaeledd polisi Cwblhawyd Tachwedd 2023 Cwblhau'r hyfforddiant Ebrill 2024
Gwelsom nad oedd asesiadau maethol yn cael eu hadolygu mewn modd amserol bob amser.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau maeth a hydradu yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae asesiadau maethol bellach yn cael eu holrhain trwy Gofnod Gofal Nyrsio Cymru. • Nid oes cynllunio gofal perthnasol wedi bod ar gael ers newid i WASSP. 	Rheolwr y Ward Pennaeth Nyrsio Rhoi gwybod am eithriadau trwy gyfarfod Grŵp	Cwblhawyd Hydref 2023 Cynllunio gofal wedi'i deilwra Mai 2024

		<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr adran ddeieteg yn gweithio gyda'r Pennaeth Nyrsio a'r wardiau i ddatblygu cynlluniau gofal wedi'u teilwra. • Cafodd y timau eu hatgoffa o bwysigrwydd adolygiadau rheolaidd. 	Profiad y Claf ac Ansawdd GGC	
<p>Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt ar y ddwy ward yn amrywiol ac nid oedd tystiolaeth fod archwiliadau dogfennaeth rheolaidd wedi'u cwblhau.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi proses ar waith i archwilio cofnodion gofal yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb, cywirdeb ac eglurder.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol yn datblygu adnodd archwilio dogfennaeth sy'n bodoli ac yn ei roi ar brawf gyda 5 set o gofnodion meddygol (ysgrifenedig ac electronig) ym mis Tachwedd. • Ffocws ar ansawdd y ddogfennaeth ysgrifenedig. • Bydd Prif Nyrs y ward yn ychwanegu at yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y ward ym mis Tachwedd 	<p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p> <p>Yn cael ei fonitro 1:1 a'i uwchgyfeirio fel y bo'n briodol trwy roi gwybod am eithriadau o fewn cyfarfod Grŵp Profiad y Claf ac Ansawdd GGC.</p>	<p>Cwblhawyd Archwiliad o Ddogfennaeth Tachwedd 2023</p>

<p>Roedd rhywfaint o ddiffyg cysylltiad rhwng nodiadau meddygol, nodiadau nyrsio, dogfennau a gedwir ar waelod gwelyau'r cleifion a'r cofnodion hynny a gynhelir yn electronig. Gwnaeth hyn y gwaith o ganfod gwybodaeth berthnasol yn anodd. Roedd diffyg cronoleg mewn rhai nodiadau meddygol ac, mewn rhai achosion, nid oedd modd eu darllen. Nid oedd rhai nodiadau meddygol wedi'u llofnodi na'u dyddio.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu sut y caiff cofnodion eu cynnal, ac os yn bosibl, eu symud i system gwbl electronig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gan nad mater ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys yn unig ond ledled Cymru yw llwyfannau amryfal ar gyfer dogfennu, mae hwn wedi'i ychwanegu at y gofrestr risg. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Gwnaeth y staff argymell ffyrdd y gellid gwella'r gwasanaeth mewn ymateb i holiadur AGIC.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi ystyriaeth i sylwadau'r staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd yr adborth gan staff yn cael ei gymryd trwy'r PESQ at ddibenion dysgu ehangach ac yn cael ei ystyried yn unol â thrawsnewid, gan alluogi perchnogaeth yn lleol. 	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Cwblhawyd Hydref 2023</p>
<p>Er bod y cyfraddau cwblhau sesiynau arfarnu staff yn gwella ar y ddwy ward, roeddent yn amrywio.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cafodd prif nyrsys y ward eu hatgoffa i'r angen i wella cydymffurfiaeth â 	<p>Rheolwyr y Wardiau</p>	<p>Chwefror 2024</p>

	<p>arfarniad o leiaf unwaith bob deuddeg mis.</p>	<p>chyfraddau'r adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd cydymffurfiaeth â'r adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad yn cael ei monitro drwy system BI a bydd proses ansawdd a diogelwch y GGC yn cael gwybod amdani. • Rhoddir anogaeth i gynllunio amser yn effeithiol gyda'r gwelliannau sy'n ofynnol o fis i fis. • Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol yn gyfrifol am sicrhau dilyniant o fewn y timau â chyfrifoldeb. • Bydd cydymffurfiaeth o 85% yn cael ei chyflawni erbyn mis Chwefror 2024. 	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	
--	---	--	---	--

<p>Nid oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar ward Y Bannau.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ar ward Y Bannau a bod cofnodion yn cael eu rhannu â'r aelodau staff hynny sy'n methu mynychu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyfarfodydd wardiau'n cael eu hadfer a'u cynnal bob mis. • Bydd cofnodion yn cael eu cofnodi a'u rhannu gyda Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol. 	<p>Rheolwyr y Wardiau</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>
<p>Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn amrywiol ar y ddwy ward.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob y staff yn cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trefnwyd hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol/Canolraddol yn unol â'r dyddiadau a oedd ar gael. • Caiff hyfforddiant Dementia/Cwypmudiadau/Paul Ridd ei ychwanegu at yr hyfforddiant gorfodol ar gyfer wardiau. • Rydym yn ymdrin â'r aelodau o staff â lefelau cydymffurfiaeth cyson isel. • Caiff yr hyfforddiant ei adolygu bob mis gan reolwr y ward a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol a rhoddir gwybod am 	<p>Rheolwr y Ward Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2023</p>

		eithriadau drwy'r grŵp ansawdd a diogelwch.		
Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar y wardiau i roi gwybod i'r cleifion a'r ymwelwyr sut i wneud cwyn ac roedd un poster yn cynnwys cyfeiriad at y Cyngor Iechyd Cymuned sydd bellach wedi'i ddiddymu.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddangos gwybodaeth ar y wardiau am sut i wneud cwyn a sicrhau bod y cyfeiriad at y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael ei newid gyda manylion Llais, sef y corff cenedlaethol, annibynnol newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais i bobl Cymru o ran sut maent yn cael eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd byrddau'n cael eu gosod ym mhob ardal o'r ward. • Ystyried defnyddio gofod sy'n bodoli dros dro. 	Gwasanaethau Corfforaethol Tîm Ansawdd a Diogelwch Rheolwr y Gwasanaethau Cymunedol	Cwblhawyd Medi 2023
Nid oedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y rheoliadau Dyletswydd Gonestrwydd.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a'u bod yn cael hyfforddiant priodol ar y mater.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd prif nyrsys y ward yn cwblhau hyfforddiant priodol ac yn annog pob aelod o staff cymwys i'w gwblhau. • Bydd prif nyrsys y ward yn monitro niferoedd y staff a hyfforddir trwy'r adolygiad arfarnu a datblygu perfformiad a phroses datblygu'r staff. • Bydd Prif Nyrs y ward yn ychwanegu at yr agenda ar 	Rheolwyr y Wardiau	Cwblhawyd Hydref 2023

		<p>gyfer cyfarfod nesaf y ward ym mis Tachwedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd gwybodaeth yn cael ei hargraffu a'i lamineiddio yn ardaloedd y ddwy ward. 		
Nid oedd yr holl staff yn gwybod sut i gael gafael ar y polisiau a'r gweithdrefnau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau ar y fewnrwyd.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwnaed yr holl staff yn ymwybodol o dudalennau mewnwyd y bwrdd iechyd lle y mae modd cael gafael ar bolisiau 	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Medi 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Linzi Shone

Swydd: Pennaeth Nyrsio Proffesiynol

Dyddiad: 5/12/2023